AIDAC

# Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Adroddiad Blynyddol
2023 - 2024

# Cynnwys


Rhagair 3

Cyflwyniad 4

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith 5

Ymgysylltu â rhanddeiliaid 7

Ymgysylltiad trawsffiniol 9

Proses 10

Ceisiadau a dderbyniwyd 14

Manylion pellach am bryderon a dderbyniwyd 15

Adroddiadau sy'n cael eu datblygu 17

Monitro Effaith 18

Casgliad 20

## Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno fy nhrydydd adroddiad blynyddol fel Asesydd Interim Diogelu’r Amgylchedd Cymru (AIDAC) sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Mawrth 2023 i 29 Chwefror 2024.

Eleni gwelwyd naw cyflwyniad gan y cyhoedd yn tynnu sylw at amrywiaeth o bryderon am gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.  Roedd hyn yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ac rwy'n ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cymryd yr amser i wneud y cyflwyniadau hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd lle byddai effeithiolrwydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn elwa o adolygiad.

Bu newidiadau i'r tîm Ysgrifenyddiaeth, gyda Clare Stock a Tim Morris yn ymuno ym mis Awst 2023 a Phennaeth newydd yr Ysgrifenyddiaeth, Emma Davies yn cael ei phenodi ym mis Rhagfyr 2023. Rhaid i mi ddiolch i David Beckett ac Elizabeth Clark am eu cyfraniad a'u hymroddiad i Ysgrifenyddiaeth AIDAC dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn dîm bach er hyn rydym wedi parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith mewn sawl maes allweddol ac er bod mwy i'w wneud, bydd ychwanegu Dirprwyon, Anna Heslop a Lynda Warren, a chefnogaeth gan fyfyrwyr PhD i'n gwaith yn 2024 yn fuddiol ac yn gymorth i ni i gyflawni ein nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (NHAS) unwaith eto wedi darparu adborth amhrisiadwy i gynorthwyo'r AIDAC i asesu a monitro ei effaith ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn ei ystyried yn weithredol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid sydd wedi estyn allan ataf dros y flwyddyn ddiwethaf a mynychu digwyddiadau a drefnwyd gan yr AIDAC.  Mae'r pryderon, y dystiolaeth a'r sylwadau a ddarparwyd wedi bod yn amhrisiadwy. Gwerthfawrogir y gefnogaeth barhaus hon yn fawr ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi i gyd yn 2024.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch i Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd am ei chefnogaeth, cyfarfodydd rheolaidd ac ymgysylltiad â'r AIDAC yn ystod y tymor hwn.

# Cyflwyniad

Ers mis Mawrth 2021, mae Dr Nerys Llewelyn Jones wedi ymgymryd â rôl Asesydd Interim Diogelu’r Amgylchedd Cymru (AIDAC). Mae'r AIDAC yn ystyried pryderon a godwyd gan y cyhoedd am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Mae hon yn broses dros dro a fydd ar waith nes bod corff parhaol yn cael ei sefydlu yng Nghymru i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Cafodd Dr Llewelyn Jones ei gontractio i ddechrau am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, er bod hyn wedi'i ymestyn hyd at 29 Chwefror 2024. Ers hynny mae estyniad blwyddyn arall wedi'i ddarparu tan 29 Chwefror 2025 a dechreuwyd recriwtio dau Ddirprwy yn 2023, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud ym mis Mai 2024 am gyfnod o 3 blynedd.

Mae'r AIDAC yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r AIDAC. Mae ein ffocws ar weithrediad cyfraith amgylcheddol, nid ar dorri'r gyfraith honno. Ein hamcanion yw:

- goruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru; ac
- ystyried materion systemig sy'n ymwneud â gweithio neu weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Nid yw'r rôl yn cynnwys ystyriaeth o :

- dorri cyfraith amgylcheddol;
- meysydd o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; neu
- materion a godir sy'n cael eu cynnwys gan fecanwaith neu broses gwynion arall.

Ein nod yw cofnodi lle y gellir cymryd camau i wella gweithrediad cyfraith amgylcheddol er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol. Mae manylion am sut i godi pryder am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, yn ogystal â'n cylch gorchwyl, ar gael yn Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru | GOV. CYMRU

Mae'r AIDAC wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cyflwyniadau a dderbyniwyd, wrth ystyried gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac unrhyw gamau a gymerwyd ynghylch pryderon a godwyd. Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ac mae'n ymdrin â'r cyfnod 1 Mawrth 2023 i 29 Chwefror 2024

# Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

Ar 21 Mehefin 2023, mynychodd yr AIDAC sesiwn dystiolaeth lafar a gynhaliwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (NHAS) ("Pwyllgor NHAS"). Rhoddodd y sesiwn gyfle i Bwyllgor NHAS graffu ar weithrediad y trefniadau llywodraethu amgylcheddol interim a dysgu mwy gan Dr Llewelyn Jones am ei blwyddyn flaenorol fel AIDAC yn ogystal â'i gweithgaredd arfaethedig wrth symud ymlaen. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth hon, cyhoeddodd Pwyllgor NHAS adroddiad ar weithrediad y mesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro.

Rydym unwaith eto yn ddiolchgar i Bwyllgor NHAS am y gwaith y maent wedi'i wneud yn y maes hwn a'r argymhellion a wnaethant ar gyfer gwella'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro. Mae argymhellion Pwyllgor NHAS yn becyn pwysig o welliannau i sicrhau y gall yr AIDAC gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol nes bod corff goruchwylio amgylcheddol parhaol ar waith.

Er bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi'u hanelu'n bennaf at Lywodraeth Cymru, roedd un argymhelliad a gafodd ei gyfeirio'n benodol tuag at yr AIDAC. Roedd hyn yn ymwneud â sefydlu prosesau i fonitro effaith rôl yr AIDAC a gweithio ar ganlyniadau amgylcheddol. Mae'r AIDAC yn ddiolchgar i Bwyllgor NHAS am dynnu sylw at hyn ac wedi ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno'r briffio blynyddol i Bwyllgor NHAS a'r cyfle i aelodau'r Pwyllgor gwestiynu'r Asesydd Dros Dro yn uniongyrchol ar ei waith ac i dynnu sylw at feysydd y mae angen eu hystyried.
- Darparu briffiau Rhanddeiliaid ar-lein bob cwarter i'r cyhoedd holi'r Asesydd Dros Dro yn uniongyrchol ar ei gwaith[1]
- Cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd sy'n manylu ar weithgareddau AIDAC.[2]
- Adolygiadau chwarterol o'r holl gyflwyniadau a dderbyniwyd gan yr AIDAC ers ei sefydlu, gan nodi newidiadau sylweddol sy'n effeithio ar gwmpasu'r cyflwyniadau cychwynnol ac ailystyried yn unol â'r egwyddorion blaenoriaethu cyhoeddedig.[3]
- Adolygiadau parhaus o weithgarwch y Senedd sy'n berthnasol i weithgareddau'r AIDAC megis trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor NHAS.

Mae'r AIDAC yn ystyried pa brosesau monitro ychwanegol sydd eu hangen i ddadansoddi effaith adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr AIDAC wrth symud ymlaen. Mae adran ychwanegol wedi'i hychwanegu at yr Adroddiad Blynyddol hwn sy'n adolygu

[1] Mae pedwar cyfarfod chwarterol i randdeiliaid wedi'u cynnal hyd yn hyn. Mae manylion y trafodaethau a'r materion a godwyd yn cael eu cynnwys yng nghylchlythyr AIDAC. Gellir cael gwahoddiadau timau i fynychu drwy e-bostio iepaw@gov.wales.

[2] Mae pedwar cylchlythyr wedi'u cyhoeddi hyd yma gan ddechrau ym mis Hydref 2022. Gellir dod o hyd iddynt yn Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru | GOV. CYMRU

[3] Mae manylion am ganlyniad adolygiadau wedi'u cynnwys yn adran Broses yr adroddiad hwn.

ac yn ystyried effaith argymhellion yr adroddiad a gweithgareddau AIDAC eraill. Rydym hefyd wedi adolygu ein prosesau cyflwyno a'n gweithgareddau dadansoddi. O ganlyniad, mae mesurau i wella monitro ac adrodd effaith wedi'u nodi a'u gweithredu yn ein hadolygiadau chwarterol o gyflwyniadau.

Argymhelliad allweddol arall adroddiad y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen ddangosol ar gyfer gweddill y broses benodi ar gyfer Dirprwy AIDAC.[4] Mae'n bleser gan yr AIDAC gyhoeddi bod dwy Ddirprwy wedi'u penodi yn lle un yn dilyn y broses recriwtio ym mis Rhagfyr, a bod y ddwy Dirprwy, Anna Heslop a Lynda Warren bellach yn y swydd ers 1 Mai 2024. Mae'r AIDAC yn ffodus i fod wedi denu dau fyfyriwr PhD i ymuno â'r tîm am gyfnod o 3 a 6 mis yn y drefn honno i gyfrannu'n benodol at ein gwaith ar safleoedd gwarchodedig a dŵr, gydag un lleoliad yn dechrau yng nghyfnod yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r ddau yn parhau i mewn i flwyddyn 2024-5. Mae'r ychwanegiadau hyn at dîm AIDAC wedi bod yn amhrisiadwy a byddant yn galluogi ni i gyflawni mwy o allbwn yn ystod 2024-5.

[4] Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar [...] camau sydd wedi'u cymryd hyd yma i benodi Dirprwy AIDAC. Dylai hyn gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer gweddill y broses benodi.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ers 2022, mae'r AIDAC wedi parhau i gynnal cyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid chwarterol ar-lein. Mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau i roi cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon â diddordeb am waith yr AIDAC yn ogystal â gwrando a dysgu o'r randdeiliaid am faterion sydd yn peri pryder gallai arwain at gyflwyniadau. Mae'r sesiynau hyn yn parhau i gael eu mynychu'n dda ac wedi gweld ystod ehangach o randdeiliaid yn ymgysylltu â ni dros y 12 mis diwethaf. Maent hefyd wedi profi i fod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr i ni ac yn parhau i ganiatáu i ni ddarparu lefel uchel o dryloywder o ran ein gwaith. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, rydym hefyd wedi parhau i gwrdd â rhanddeiliaid unigol yn rhithiol ac yn bersonol. Mae hyn wedi cynnwys CNC, RSPB, y Gynghrair Werdd ac Afonydd Cymru, CLlLC ac AECoW. Mae mewnwelediadau o'r cyfarfodydd hyn wedi cynorthwyo'r AIDAC i ystyried ystod o faterion amgylcheddol sydd wedi gofyn am flaenoriaeth.

Mynychodd yr AIDAC nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynhadledd UKELA ddiwedd Mehefin 2023 a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Reading. Cyflwynodd yr Asesydd Interim ddiweddariad yn sesiwn rithwir Gweithgor UKELA Cymru a mynychodd hefyd y digwyddiad personol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Reading lle cymerodd ran mewn sesiwn ynghyd â chynrychiolwyr o'r SDA, ac SAA ar Lywodraethu Amgylcheddol yn y DU.
- Roedd Sioe Frenhinol Cymru 2023 unwaith eto yn gyfle i gwrdd â rhanddeiliaid. Roedd gan yr AIDAC ddiddordeb arbennig ym marn rhanddeiliaid ar Ddeddf Amaethyddol (Cymru) 2023 a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Croesawyd mewnbwn gan randdeiliaid yn arbennig gan ei fod yn rhoi persbectif defnyddiol ar sut y gallai'r cynllun effeithio ar weithrediad cyfraith amgylcheddol.
- Roedd digwyddiad Coed Cadw yng Nghaerdydd ar ddiogelu coed yn canolbwyntio'n benodol ar faterion Cymreig gyda chyflwyniadau deniadol gan gynrychiolwyr ieuenctid a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, a fynychwyd gan Ysgrifenyddiaeth AIDAC.
- Presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau Fforwm San Steffan gan gynnwys Prif Seminar Fforwm Polisi Cymru: Y camau nesaf ar gyfer polisi newid hinsawdd yng Nghymru ar 9 Mehefin 2023 a'r dyfodol ar gyfer safonau, polisi a rheoleiddio amgylcheddol yn y DU ar 27 Chwefror 2024.
- Presenoldeb rhithwir yng nghynhadledd Cymdeithas Clercod Gwaith Amgylcheddol ar 14 Tachwedd 2023 a oedd yn ystyried dulliau penodol o ymdrin ag Asesiad Effaith Amgylcheddol.
- Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gael y gwybodaeth ddiweddaraf am faterion syn dod i'r

amlwg a thrafodaethau ar feysydd yr ydym yn gweithio arnynt.  Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn gweithdy cydweithredol gyda CNC ar 12 Chwefror 2024 ar flaenoriaethau deddfwriaethol a rheoleiddiol posibl.  Roedd y gweithdy hwn yn gyfle defnyddiol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r meysydd cyfraith amgylcheddol sydd â chyfyngiadau neu lle gellid gwneud gwelliannau o safbwynt Rheoleiddio.

Rydym hefyd yn parhau i gwrdd â swyddogion perthnasol o fewn timau polisi Llywodraeth Cymru fel yn y blynyddoedd blaenorol.  Mae hyn yn rhoi'r cyfle i sicrhau ein bod yn parhau i gael y wybodaeth briodol am ddatblygiadau polisi sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

## Ymgysylltiad trawsffiniol

O ystyried natur drawsffiniol llawer o faterion amgylcheddol, mae'n bwysig ein bod yn cynnal perthynas waith adeiladol gyda'n cymheiriaid yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Am y rheswm hwn, rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (SDA) (sy'n cynrychioli Lloegr a Gogledd Iwerddon) a Safonau Amgylcheddol yr Alban (SAA). Er bod gan bob corff gylchoedd gorchwyl a phwerau ychydig yn wahanol i ni yng Nghymru, mae'r cyfarfodydd hyn yn fforwm amhrisiadwy ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth, gan alluogi'r tri chorff i drafod a rhannu ein blaenoriaethau, tynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg, a rhannu gwybodaeth am arfer gorau. Er mwyn cryfhau'r berthynas hon ymhellach, mae'r tri chorff wedi cytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n [5] nodi sut y bydd y tri chorff yn ceisio cydweithredu a rhannu gwybodaeth.

Mae gwaith wedi parhau eleni yn rhannu gwybodaeth am faterion ansawdd dŵr yn ogystal â chydweithio ar waith sy'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig.  Gyda nifer o gyrff dŵr yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, mae cydweithio wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ein dealltwriaeth o ble mae cyfleoedd a heriau'n bodoli mewn rheolaeth amgylcheddol ar hyd eu cyrsiau. Mae'r cydweithio hwn hefyd wedi helpu i ddeall yr heriau y mae gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio yn eu cyflwyno.

Derbyniodd yr AIDAC wahoddiad hefyd i ymuno â chyrff craffu amgylcheddol eraill y DU yng Nghaeredin, yr Alban ar 24 a 25 Mai 2023. Rydym yn ddiolchgar i'r SAA am gynnal y cyfarfod hwnnw ac mae'r cyfle i gwrdd â chymheiriaid a thrafod y prosesau ar gyfer sefydlu'r cyrff SDA ac SAA wedi bod yn amhrisiadwy i ni yn yr AIDAC o ran ein datblygiad ond hefyd wrth fwydo i mewn i'r tîm Llywodraethu Amgylcheddol yn ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y corff parhaol yng Nghymru. Rydym yn falch o gadarnhau y bydd y cyfarfod hwn yn dod yn ddigwyddiad blynyddol ac rydym yn gyffrous i groesawu cynrychiolwyr yr SDA a'r SAA i Gaerdydd ym mis Awst 2024.

[5] Ar gael yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Swyddfa Protection_0.pdf Amgylcheddol (theSDA.org.uk)

## Proses


Ein nod yw darparu ymateb cychwynnol i ffurflenni cyflwyno a dderbyniwyd o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn.


Pan dderbynnir cyflwyniad, mae'n destun ymarfer cwmpasu i benderfynu a yw'n ymwneud â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac felly gall yr AIDAC ei hystyried. Os yw'r cyflwyniad o fewn cwmpas, yna bydd hefyd yn cael ymarfer blaenoriaethu i benderfynu a ddylai fod yn destun ymchwiliad ac adroddiad i Weinidogion Cymru. Nid yw'n bosibl llunio adroddiad mewn ymateb i bob cyflwyniad a dderbynnir. Yn hytrach, ein nod yw targedu ein hadnoddau ar y materion yr ydym yn eu hystyried i fod o'r flaenoriaeth uchaf yn unol â'n hegwyddorion blaenoriaethu cyhoeddedig[6].


Yn dilyn adroddiad pwyllgor NHAS ar yr AIDAC a gyhoeddwyd ym mis Mehefin[7], rydym wedi adolygu ein prosesau ynghylch cyflwyniadau o ganlyniad i'w hargymhelliad ar fonitro effaith. Nodwyd y byddai gwella sut rydym yn rheoli ac yn defnyddio data yn ogystal â'r manylion a gofnodir gennym yn angenrheidiol at y diben hwn. Roedd y gwelliannau'n cynnwys categorïau wedi'u mireinio ar gyfer cyflwyniadau a chofnodi camau gweithredu gwell mewn ymateb. Mae'r holl gyflwyniadau a dderbyniwyd gan yr AIDAC wedi'u hailgategoreiddio gan ddefnyddio'r categorïau newydd i sicrhau cysondeb wrth symud ymlaen yn ogystal â dadansoddiad o weithgarwch blaenorol. Rydym hefyd wedi gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cofnodi gwybodaeth am y rheoliadau a'r statudau y cyfeirir atynt mewn cyflwyniadau. Mae hyn yn ein galluogi i wella ein dadansoddiad o weithrediad deddfwriaeth amgylcheddol a darparu manylion priodol i Weinidogion Cymru. Yn ogystal, rydym yn gwella ein dadansoddiad o'r materion amgylcheddol sy'n cael eu dwyn i'n sylw. Mae ffigurau 1 – 3 isod yn dangos y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn erbyn y categorïau newydd ers sefydlu'r AIDAC fesul blwyddyn.

[6] Ar gael yn egwyddorion blaenoriaethu Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) | GOV. CYMRU


[7] Gweler yr Adran Adroddiad Pwyllgor NHAS am ragor o fanylion, cr-ld16043-e.pdf (senedd.cymru)


Figure 1: AIDAC Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl categori 2021-2022
Amledd
0
1
2
3
4
5
6
Mynediad at wybodaeth amgylcheddol
Coed, coetiroedd a choedwigoedd anfasnachol
Ansawdd dŵr
Amaethyddiaeth a choedwigaeth fasnachol
Gweithgaredd cynllunio ac adeiladu
Ansawdd aer
Bywyd planhigion a bioamrywiaeth
Bywyd gwyllt a chynefinoedd
Gwastraff ac ailgylchu
Gweithgaredd diwydiannol a llygredd
Safleoedd diwydiannol hanesyddol


Figure 2: AIDAC Cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ôl categori 2022-2023
Amledd
0
1
2
3
4
5
6
Mynediad at wybodaeth amgylcheddol
Coed, coetiroedd a choedwigoedd...
Ansawdd dŵr
Amaethyddiaeth a choedwigaeth...
Gweithgaredd cynllunio ac adeiladu
Ansawdd aer
Bywyd planhigion a bioamrywiaeth
Bywyd gwyllt a chynefinoedd
Gwastraff ac ailgylchu
Gweithgaredd diwydiannol a llygredd
Safleoedd diwydiannol hanesyddol




Mae'r rhan fwyaf o gyflwyniadau a dderbyniwyd gan yr AIDAC wedi arwain at gael eu hystyried a'u cynnwys wrth gwmpasu adroddiad. O'r 36 o gyflwyniadau a dderbyniwyd ers 2021, ystyriwyd bod 7 y tu allan i gwmpas yr AIDAC. Derbyniwyd y mwyafrif o'r rhain yn 2021, 5 gyda dim ond 2 gyflwyniad pellach hyd yma wedi disgyn i'r categori hwn. Rydym yn credu bod gweithredu ffurflen gyflwyno ffurfiol a chanllawiau cliriach ar gynnwys cyflwyniadau a beth sydd o fewn cwmpas neu y tu allan wedi cynnorthwyo cynhyddu'r cyflwyniadau. Rydym wedi derbyn cyflwyniadau ar ansawdd dŵr, a bioamrywiaeth bob blwyddyn hyd yma.




Mae'r gwaith hwn hefyd wedi tynnu sylw at rai o'r cyfyngiadau y mae adnoddau wedi'u gosod ar weithgarwch yr AIDAC. Mae ffactorau eraill wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch pynciau adroddiadau ar gyfer Gweinidogion Cymru. Ansawdd dŵr fu'r mater mwyaf cyffredin a godwyd gyda'r AIDAC ers ei sefydlu. Er ei fod wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu, nid yw'r gwaith wedi dechrau eto ar adroddiad i'r pwnc hwn. Mae hyn oherwydd cymhlethdod y mater fel y dangosir yn y cyflwyniadau a dderbyniwyd. Er eu bod i gyd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n cyfeirio at ansawdd dŵr, mae sawl ffynhonnell llygredd wedi'u nodi mewn cyflwyniadau. Ar ben hynny, rydym yn awyddus i ychwanegu gwerth a gwnaethom benderfyniad ymwybodol yn 2023 i beidio â chychwyn ar lunio adroddiad dŵr bryd hynny nes bod darnau eraill o waith Pwyllgor NHAS, Llywodraeth Cymru a CNC wedi'u cwblhau.

Fodd bynnag, rydym wedi recriwtio myfyriwr PhD penodedig a fydd yn canolbwyntio ar ansawdd dŵr ac yn dechrau yn yr AIDAC ym mis Mawrth. Dylai ei cyfraniad ein galluogi i ddatblygu'r adroddiad ar ansawdd dŵr yn gyflym gyda Galw am gyhoeddi Tystiolaeth yn Haf 2024.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn adolygiadau chwarterol o'r holl gyflwyniadau hyd yma i sicrhau ein bod yn olrhain cynnydd yn effeithiol ar faterion amgylcheddol amrywiol sydd wedi'u codi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith mewn ymateb i'w cyflwyniad. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r penderfyniad a'r gweithgaredd cwmpasu gwreiddiol sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniad.

## Ceisiadau a dderbyniwyd

Yn ystod 2023 – 24, cawsom naw cyflwyniad am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Roedd hyn yn gynnydd o 50% ers y flwyddyn flaenorol.

- Un cyflwyniad yn ymwneud â gorchmynion cadw coed a gweithgarwch gorfodi priodol gan awdurdodau cynllunio lleol.
- Dau gyflwyniad yn ymwneud â diogelu a rheoli safleoedd gwarchodedig.
- Dau gyflwyniad yn ymwneud ag ansawdd dŵr ac effaith gweithgaredd ar safleoedd gwarchodedig.
- Mae dau yn ymwneud ag allyriadau amonia o ffynonellau amaethyddol.
- Mae un cyflwyniad yn ymwneud â chynllunio datblygu lleol a'r ystod lawn o rwymedigaethau y mae awdurdodau cynllunio yn ddarostyngedig iddynt o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.

(Gweler Ffigur 3 uchod)

O'r cyflwyniadau a dderbyniwyd eleni, ystyriwyd bod un y tu allan i gwmpas proses AIDAC felly ni chafodd ei gymryd ymhellach. Roedd y cyflwyniad hwn yn ymwneud â chloddio cast agored. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflwyniadau eraill ar faterion yr ydym eisoes yn drafftio adroddiadau arnynt ac rydym wedi ystyried y cyflwyniadau ychwanegol hyn yn eu datblygiad.

# Manylion pellach am bryderon a dderbyniwyd

**Coed**

Yn y cyflwyniad hwn, nododd yr ymgeisydd nad oedd gorchmynion cadw coed yn cael eu defnyddio'n gywir. Nodwyd achos lle cafodd sawl coeden eu cwympo yn dilyn cais cynllunio. Awgrymwyd y gellid dewis canllawiau neu reoliadau i gyfiawnhau penderfyniadau i ganiatáu i goed gael eu cwympo. Roeddent hefyd yn dadlau nad yw prosesau monitro a gorfodi yn ddigonol i sicrhau bod mesurau diogelu cyfreithiol ar gyfer ardaloedd coetir a choed penodol yn cael eu deddfu.

**Safleoedd gwarchodedig.**

Rydym wedi derbyn dau gyflwyniad yn ymwneud â safleoedd gwarchodedig eleni. Yn gyntaf, codwyd pryderon am weithgaredd yn ymwneud ag Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig (AGA) a rhwymedigaethau Cymru yn ymwneud â chreu rhwydwaith cenedlaethol ledled y DU. Cododd yr ail bryder ynghylch diogelu rhywogaethau sydd mewn perygl ar safleoedd gwarchodedig ac i ba raddau yr oedd rhwymedigaethau yn cael eu hystyried yn y broses gynllunio.

Rydym wrthi'n cynhyrchu adroddiad ar ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig yng Nghymru. Mae'r cyflwyniadau hyn wedi'u cynnwys i'w hystyried yn yr adroddiad hwn.

**Ansawdd Dŵr**

Rydym wedi derbyn dau gyflwyniad yn ymwneud ag ansawdd dŵr eleni. Yn y lle cyntaf, codwyd pryderon am effaith gollyngiadau a ganiateir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Dadleuwyd nad oedd y drefn drwyddedu bresennol yn darparu digon o ddiogelwch i'r safleoedd hyn. Cododd yr ail bryder am effaith llygredd amaethyddol gwasgaredig ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Roedd yn dadlau bod lle i ddeddfwriaeth a rheoliadau gael eu cymhwyso'n anghywir, gan nodi tystiolaeth o lygredd mewn corff penodol o ddŵr.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ein hymagwedd tuag at ansawdd dŵr a chynhyrchu adroddiad. Mae hyn wedi gofyn am ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid i benderfynu pa faterion sy'n gysylltiedig. Mae'r cyflwyniadau hyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr adroddiad hwn.

**Allyriadau amonia**

Rydym wedi derbyn dau gyflwyniad yn ymwneud ag allyriadau amonia eleni. Mae'r ddau yn ymwneud â rheolaeth effeithiol o allyriadau amonia mewn amaethyddiaeth. Awgrymwyd bod canllawiau'n seiliedig ar wybodaeth anghywir a'u bod yn arwain at awdurdodau yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau amaethyddol yn ddiffygiol. Dadleuwyd hefyd nad oedd allyriadau'n cael eu rheoli'n effeithiol o ganlyniad.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ein hymateb i'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau hyn.

**Cynllunio a Gweithgaredd Adeiladu**

Roedd y cyflwyniad hwn yn dadlau bod awdurdodau cynllunio lleol yn methu ystyried eu rhwymedigaethau i sicrhau

mynediad i fannau agored. Roedd yn ddeddfwriaeth ddadlau bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi methu â throsglwyddo cyfrifoldebau a gedwir gan gyrff blaenorol yn y maes hwn.

Yn y broses o sgorio, nodwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi ystyried darn dilynol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r cyfrifoldebau hyn. Penderfynwyd felly nad oedd angen ymchwilio ymhellach i'r cais.

**Gweithgaredd Diwydiannol a Llygredd**

Roedd y cyflwyniad hwn yn dadlau bod lle i barhau gyda mwyngloddio brig yng Nghymru o ganlyniad i gymhwyso polisïau cynllunio a diwydiannol yn anghywir. Nodwyd achos safle mwyngloddio agored i gefnogi'r cyflwyniad. Gan fod y cyflwyniad yn ymwneud â thorri rheoliadau, penderfynwyd ei fod yn disgyn y tu allan i gwmpas yr AIDAC.

## Adroddiadau sy'n cael eu datblygu

Rydym yn parhau i ddatblygu nifer o adroddiadau ar hyn o bryd. Mae'r rhain wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl yn wreiddiol gan fod materion sy'n dod i'r amlwg wedi cael eu hystyried. O ystyried ein bod wedi derbyn 9 cyflwyniad arall yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi bod yn heriol i ddatblygu ein gwaith adrodd. Bu'n rhaid ystyried cyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd yng nghyd-destun yr adroddiadau sydd eisoes ar y gweill.

Ar hyn o bryd mae 4 adroddiad yn cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Coed
2. Gwrychoedd
3. Safleoedd Gwarchodedig
4. Sancsiynau Sifil

Ar hyn o bryd rydym yn drafftio adroddiad ar ddiogelu a rheoli gwrychoedd. Bwriad hyn yw ystyried a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn cyflawni eu nod datganedig o ddiogelu gwrychoedd yn effeithiol. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd yn agos â nifer o faterion a nodwyd wrth ddatblygu'r adroddiad ar goed.

Mae adroddiad pellach ar safleoedd gwarchodedig a'u rheolaeth hefyd yn cael ei ddrafftio. Mae hyn yn dilyn nifer o geisiadau a dderbyniwyd yn 2022. Derbyniwyd nifer o geisiadau pellach eleni, fel y nodwyd uchod. Nod yr adroddiad hwn yw ystyried y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu a rheoli'r gwahanol fathau o safleoedd sydd wedi'u dynodi yng Nghymru.

Adroddiad arall yr ydym yn teimlo sy'n berthnasol i lawer o'r materion yr ydym wedi bod yn eu hystyried yw cymhwyso sancsiynau sifil yng Nghymru. Nod arfaethedig yr adroddiad hwn yw ystyried sut y defnyddiwyd sancsiynau sifil hyd yma o fewn cyfraith amgylcheddol a hefyd asesu a fyddai defnyddio sancsiynau sifil mewn meysydd eraill o gyfraith amgylcheddol yn werthfawr er mwyn annog cydymffurfiaeth ac fel mecanwaith ychwanegol ar gyfer gorfodi.

Nodwyd y llynedd ein bod wedi cadw llygad barcud ar faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yng Nghymru, yn enwedig pryderon ynghylch y defnydd o orlifoedd carthion cyfun a llygredd amaethyddol. Ar ôl derbyn cyflwyniadau pellach ar y pwnc hwn eleni sy'n nodi'r rhain a ffynonellau llygredd eraill fel materion posibl, rydym wedi recriwtio myfyriwr PhD ar leoliad rhan-amser 6 mis a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar weithrediad cyfraith amgylcheddol yn y maes hwn a'r fframwaith rheoleiddio sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd galwad am dystiolaeth ar ansawdd dŵr yn cael ei chyhoeddi yn ystod cyfnod 2024-25.

## Monitro Effaith

Gwnaeth adroddiad pwyllgor NHAS ar weithrediad yr AIDAC a gyhoeddwyd ym mis Medi argymhelliad penodol i ni:

> "Dylai AIDAC sefydlu proses ffurfiol i fonitro effaith ei argymhellion ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a chanlyniadau amgylcheddol. Bydd hyn yn caniatáu i'r AIDAC asesu ei effaith.[8]"

Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym wedi blaenoriaethu ein prosesau ar gyfer monitro effaith ein gweithredoedd mewn perthynas â chyflwyniadau gan mai dyma fan cychwyn llawer o'n gweithgaredd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu proses adolygu ffurfiol sy'n gwerthuso penderfyniadau a gweithgarwch blaenorol ers derbyn cyflwyniadau.

Mae ceisiadau hyd yn hyn wedi disgyn yn fras i ddau gategori; y rhai y tu mewn a'r tu allan i gwmpas yr AIDAC. Lle maent wedi syrthio o fewn cwmpas, fe'u dyrannwyd i adroddiadau sy'n cael eu datblygu neu i'r rhai yr ydym yn cynllunio ein gweithgarwch ar hyn o bryd.

Mae'r cyflwyniadau hynny y penderfynwyd eu bod y tu hwnt i gwmpas yr AIDAC wedi cael eu hadolygu i benderfynu a yw'r penderfyniad hwnnw'n dal i fodoli, neu a fu newidiadau fel cyflwyno deddfwriaeth newydd a allai ysgogi ailwerthuso'r penderfyniad gwreiddiol.

O'r cyflwyniadau hynny sy'n disgyn y tu allan i gwmpas, mae dau yn nodedig. Roedd y materion a godwyd yn y cyflwyniadau hynny yn ymwneud ag ymddygiad CNC. Er nad oes gan yr AIDAC bwerau ffurfiol i ddelio â materion o'r fath, teimlwyd nad oedd hyn yn atal yr AIDAC rhag codi'r materion hyn gyda CNC. Ystyriwyd yn rhesymol i ofyn am esboniad o'u penderfyniad a pha gynlluniau oedd ganddynt mewn perthynas â'r materion a godwyd.

Yn y cyflwyniad cyntaf, dadleuwyd bod CNC yn methu â chynnal cofrestr gyhoeddus i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd gael gwybodaeth am faterion llygredd yng Nghymru. Ers codi'r mater mae CNC wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi sicrhau bod cofrestr gyhoeddus ar gael ar ei wefan[9].

Yn yr ail gyflwyniad, dadleuwyd bod CNC wedi methu â sefydlu a chynnal Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol (RAC) fel yr oedd yn ofynnol iddynt o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Ers ein trafodaethau, mae CNC wedi creu un is-gorff o'u Pwyllgor Rheoli Tir (LMC). Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn cyfarfod i adolygu materion sydd yn dod i'r amlwg ac ystyried blaenoriaethau strategol ar gyfer coedwigaeth yn ôl yr angen, gan adrodd yn ôl i'r LMC llawn.

O ran monitro effaith o ran ymatebion i adroddiadau AIDAC, rydym yn dal i fod yn y broses o ffurfioli ein dulliau. Mae'r mater o gapasiti ac wedi cael rhywfaint o effaith ar waith yn y maes hwn gan fod adnoddau wedi'u neilltuo i adrodd

---

[8] Argymhelliad 2 cr-ld16043-e.pdf (senedd.cymru)

[9] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cofrestr gyhoeddus: trwyddedu amgylcheddol, adnoddau dŵr a gwybodaeth trwyddedu morol

am ddatblygiad wrth iddynt ddod ar gael. Hyd yma, dim ond monitro anffurfiol o effaith Adroddiad Deddfwriaeth Diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'i wneud.

Yn flaenorol, rydym wedi cyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod argymhellion adroddiad REUL a gyhoeddwyd yn 2022-23 fel rhan o'n gwaith monitro parhaus ac yn parhau i wneud hynny, yn dilyn cam nesaf gweithredu Deddf REUL o 1af Hydref 2024.

Mae'r adnoddau cynyddol sydd ar gael i'r AIDAC yn ein galluogi i symud ymlaen yn gyflym â'r gwaith ar adroddiadau eraill. Ochr yn ochr â'r gweithgaredd hwn, rydym yn datblygu prosesau ffurfiol ar gyfer monitro a dogfennu effaith rhain wrth iddynt ddod ar gael. Bydd rhain yn cael eu treialu gyda chyhoeddi adroddiadau sydd ar ddod gyda'r nod o sicrhau bod y rhain yn cael eu datblygu'n ddigonol i ganiatáu adroddiadau effeithiol mewn Adroddiadau Blynyddol dilynol.

Hyd yn hyn rydym wedi cynnal gwaith monitro effaith anffurfiol gyda rhanddeiliaid yn ystod cyfarfodydd rhanddeiliaid. Fel gyda'n gweithdrefnau o amgylch adroddiadau AIDAC, byddwn yn ffurfioli'r rhain dros y misoedd nesaf. Yr uchelgais yw cyflawni'r un canlyniadau ag ar gyfer meysydd eraill o fonitro effaith.

## Casgliad

Mae'r AIDAC yn swydd dros dro ac edrychwn ymlaen at ganlyniad gwaith Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Mae'r AIDAC wedi ymgysylltu â thîm Llywodraethu Amgylcheddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'u gwaith parhaus ac wedi bwydo awgrymiadau yn seiliedig ar brofiad yr AIDAC hyd yn hyn.  Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i sicrhau trosglwyddiad di-dor o'r AIDAC i'r corff newydd hwn.

Rydym yn croesawu sylwadau ac adborth mewn perthynas â'r rôl a'i gwaith.  Os ydych yn dymuno codi pryder am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gallwch lenwi Ffurflen Gyflwyno sydd i'w gweld ar wefan AIDAC yn Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru: Ffurflen Gyflwyno | GOV. CYMRU.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau, manylion galwadau am dystiolaeth neu ddigwyddiadau rhanddeiliaid hefyd ar wefan AIDAC yn Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i Gymru | GOV. CYMRU. Os oes gennych unrhyw sylwadau am hyn neu'r rôl neu'n dymuno cael eich ychwanegu at y rhestr bostio, cysylltwch â AIDAC@gov.wales.